



Gwybodaeth Diogelwch Ffyrdd Cymru

Rhif 5
Mawrth 2018

Yn y Rhifyn Hwn:

[MOT ar ôl Tair Blynedd](#)

[Nawr rydych chi'n ei weld](#)

[Gwnewch Fwy Ar-lein](#)

[Ysgol Tŷ-croes](#)

[MORR](#)

[Gwersi ar y](#)

[Draffordd](#)

[Ymgyrch Snap](#)

[Enillydd o](#)

[Gasnewydd](#)

[Cymwysterau Laser](#)

[Her Godio](#)

[Model Sweden](#)

Gweler Diogelwch Ffyrdd Cymru ar:
[Facebook](#) a [Twitter](#)

Lluniwyd gan:
Ann Horton, RoSPA
02920 250 600
ahorton@rospa.com

Nid yw Diogelwch Ffyrdd Cymru'n gyfrifol am gynnwys gwefannau allanol.

Prawf MOT cyntaf cerbyd i barhau yn dair blynedd



Mae'r Adran Drafnidiaeth (DfT) wedi cyhoeddi canlyniad eu hymgyngoriad ar ymestyn MOT cyntaf cerbyd i bedair blynedd. Roedd y mwyafrif a ymatebodd i'r ymgyngoriad yn erbyn y cynigion ar sail diogelwch, gan ddadlau bod y risg i ddefnyddwyr y ffyrdd yn drech na'r arbedion i fodurwyr a bod y prawf yn aml yn amlygu problemau sydd ar fin effeithio ar y cerbyd. Mewn arolwg cyhoeddus ar ran y DfT gan Populus gwelwyd hefyd fod llai na hanner y bobl o blaid y newid.

Dywedodd y Gweinidog Ffyrdd, Jesse Norman:

"Mae gennym rai o ffyrdd mwyaf diogel y byd, ac rydym wastad yn chwilio am fodd i'w gwneud yn fwy diogel. Mae adeiladwaith a diogelwch ceir modern yn well na phan gafodd y prawf MOT ei newid o'r blaen 50 mlynedd yn ôl, ond mae yna bryder clir ymysg y cyhoedd na ddylai unrhyw newid arall beryglu bywydau. Rydym yn edrych ar ragor o ymchwil i sicrhau bod y prawf MOT yn esblygu gyda gofynion y byd moduro modern." I gael rhagor o wybodaeth, [cliciwch yma](#).

Nawr rydych chi'n ei weld ef, Nawr nid ydych chi



Dim ond 0.7% o'r traffig ar ffyrdd Cymru yw beiciau modur, ond beicwyr modur yw 23% o'r rhai sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd. Drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol bydd partneriaid Diogelwch Ffyrdd Cymru yn rhannu'r ddelwedd hon i atgoffa holl ddefnyddwyr y ffyrdd fod beicwyr modur yn wynebu mwy o risg.

Gwyddom i gyd fod beicwyr modur yn aml yn yrwyr hefyd. Yn ôl eu dull teithio ar ddiwrnod penodol, fe allen nhw wynebu risg lawer gwaeth o fod mewn gwrthdrawiad difrifol. Yn ôl ffigurau diweddaraf Cymru, mae risg beicwyr modur o gael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol 86 gwaith yn fwy nag unrhyw yrwr arall.

Mae lleihau nifer y beiciau modur mewn gwrthdrawiadau'n dal yn flaenoriaeth allweddol i bartneriaid Diogelwch Ffyrdd Cymru, a chodi ymwybyddiaeth o'r risg uwch i feicwyr modur yw un o'r dulliau sy'n cael eu defnyddio.

Gallwch weld bwletin ystadegol diweddaraf Llywodraeth Cymru, Anafusion Ymysg Beicwyr Modur 2016, [yma](#).

Gwnewch Fwy Ar-lein



damwain ffordd, a hynny wrth ochr y ffordd.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau a'r Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cerbydau wedi ehangu eu gwasanaethau i yrwyr ar-lein yn ddiweddar. Bellach gallwch ddweud wrth y DVLA eich bod wedi [gwerthu'ch car](#), adennill unrhyw [dreth ffordd sy'n ddyledus](#) ichi, a [thalu dirwy](#). Mae'r DVSA wedi lansio gwasanaethau lle gallwch wirio a oes yna [hysbysiad diogelwch](#), gwirio [hanes MoT](#) cerbyd, a chael nodyn i'ch atgoffa ei bod yn bryd [trefnu MoT](#), drwy neges destun neu ebost.

Mae Biwro'r Yswirwyr Moduron wedi lansio gwasanaeth lle gallwch [wirio manylion yswiriant](#) y partïon eraill mewn

Ymgyrch Plant Ysgol Gynradd Tŷ-croes

Mae plant Ysgol Gynradd Tŷ-croes yn ymgyrchu i gael hebryngydd lolipop newydd i'w helpu i groesi'n ddiogel.



Mae'r plant wedi bod heb Hebryngydd Croesfan Ysgol ers mis Ebrill y llynedd. Mae'r ysgol wedi mynd ati gyda chymorth tîm diogelwch ffyrdd y cyngor gan lansio cystadleuaeth baner i helpu i ennyn diddordeb. Mae'r faner wedi'i gosod dros glwydi'r ysgol a gobaith y plant yw y bydd pawb sy'n pasio yn cael eu hannog i wneud cais am y swydd.

Enillydd y gystadleuaeth oedd Ava Beck o Flwyddyn 2 ac aeth yr ail wobrau i Aliyah Beck o Flwyddyn 4 a Jada Findlay o Flwyddyn 1. Tîm diogelwch ffyrdd y sir a'r Cynghorydd Tina Higgins oedd y beirniaid. Cafodd y tair fag yr un o nwyddau diogelwch ffyrdd.

Mae angen hebryngwyr hefyd i ysgolion yng Nghydweli, Dre-fach a Ffair-fach a hebryngwyr achlysurol ledled y sir.

Cyflwyniad i Reoli Risg Alwedigaethol ar y Ffyrdd

Mae RoSPA Cymru wedi datblygu canllaw dwyieithog i helpu cyflogwyr i ddeall sut i reoli risg alwedigaethol ar y ffyrdd.



Gyrru yw'r gweithgaredd peryclaf i'r rhan fwyaf o bobl wrth eu gwaith, ac mae'n cyfrannu at lawer mwy o farwolaethau damweiniol ac anafiadau difrifol na phob gweithgaredd gwaith arall. Ychydig iawn o sefydliadau a all weithredu heb ddefnyddio'r ffyrdd. Mae miliynau o gerbydau – lorïau, faniau, tacsis, bysiau, cerbydau'r gwasanaethau brys, ceir cwmnïau, beiciau modur, beiciau – yn cael eu defnyddio at ddibenion gwaith, a bydd llawer o bobl yn gweithio ar droed ar y ffyrdd - gweithwyr cynnal-a-chadw, casglwyr sbwriel, gweithwyr post, gweithwyr trwsio cerbydau, yr heddlu ac ati. Yn anffodus, mae hyn yn golygu bod yr holl weithwyr hyn yn wynebu risgiau ar y ffyrdd am eu bod wrthi'n gwneud eu gwaith. Maen nhw hefyd yn gallu creu risgiau i bawb arall ar y ffyrdd.

Dywedodd Michelle Harrington, Rheolwr Diogelwch Ffyrdd RoSPA Cymru: "Gall canlyniadau cyfreithiol methu â rheoli risg alwedigaethol ar y ffyrdd fod yn eithriadol ddifrifol. Ar ben helpu cyflogwyr i ddeall eu cyfrifoldebau cyfreithiol, mae'r canllaw'n esbonio sut y gall diwylliant cadarnhaol ynglŷn â diogelwch ar y ffyrdd ddiogelu gweithwyr a defnyddwyr eraill y ffyrdd, arbed costau, lleihau'r ymyrraeth ar fusnes

ac osgoi'r cyhoeddusrwydd andwyol sy'n gysylltiedig â gwrthdrawiadau."

Mae'r canllaw di-dâl wedi'i fwriadu ar gyfer sefydliadau sydd heb ystyried y mater o'r blaen o bosibl ac sy'n ansicr sut i fwrw ymlaen. Ceir cyfeiriadau at lawer o gymorth a chyngor ychwanegol, llawer ohono am ddim, er mwyn helpu cyflogwyr i ddatblygu dulliau effeithiol i reoli risg alwedigaethol ar y ffyrdd. Gallwch lawrlwytho'r canllawiau [yma](#).

Gwersi ar y Draffordd wrth Ddysgu Gyrru



O ddydd Llun 4 Mehefin 2018 ymlaen, bydd y sawl sy'n dysgu gyrru'n cael cymryd gwersi gyrru ar draffyrdd Cymru, Lloegr a'r Alban. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod mwy o yrwyr yn gwybod sut i ddefnyddio traffyrdd yn ddiogel. Ar hyn o bryd, dim ond ar ôl pasio'ch prawf y gallwch gael gwersi ar y draffordd. Bydd angen i'r dysgwyr fod yng nghwmni hyfforddwr gyrru a gymeradwywyd a hynny mewn car sydd â rheolaeth ddeuol. Gwirfoddol fydd unrhyw wersi ar y draffordd, a mater i'r hyfforddwr fydd penderfynu pa bryd mae'r dysgwr yn ddigon medrus.

Hyd nes i'r gyfraith newid, mae'n dal yn anghyfreithlon i ddysgwr yrru ar draffordd, a dim ond i'r rhai sy'n dysgu gyrru car y bydd y newid yn gymwys; fydd dim caniatâd i ddysgu gyrru beic modur ar y draffordd.

Nid yw gyrru ar y draffordd wedi'i gynnwys yn y prawf gyrru fel rhan o'r newid hwn.

Lansio Ymgyrch Snap Ledled Cymru



Bellach gall modurwyr gyfrannu at helpu heddluoedd Cymru i gadw ffyrdd yn ddiogel drwy ddefnyddio delweddau digidol o gamerâu ar y dangosfwrdd a dyfeisiau eraill. Fel rhan o Ymgyrch Snap, gall aelodau o'r cyhoedd ledled Cymru gynnig delweddau sy'n dangos troseddau traffig yn cael eu cyflawni – o yrru'n beryglus neu'n ddiogel i dorri ar draws llinellau gwyn solet, defnyddio ffôn symudol wrth yrru neu anwybyddu arwyddion traffig.

Uned GanBwyll Heddlu'r Gogledd a'r Bartneriaeth Lleihau Damweiniau Ffyrdd ddyfeisiodd yr ymgyrch a'i pheilota i ddechrau a bellach mae wedi'i chyflwyno ledled Cymru yn sgil

rhagor o ddatblygu gan Heddlu'r De a GanBwyll. Bydd yn rhoi grym i'r cyhoedd helpu'r heddluoedd i weithredu yn erbyn y rhai sy'n creu risg i ddefnyddwyr eraill y ffyrdd.

Mae'r gyd-fenter rhwng pedwar heddlu Cymru, GanBwyll a Gwasanaeth Eryl y Goron wedi ennyn cefnogaeth Cycling UK a Chymdeithas Ceffylau Prydain yn ogystal â nifer o deuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn sgil troseddau traffig ffyrdd. I roi delweddau i unrhyw un o heddluoedd Cymru, ewch i www.gosafesnap.cymru neu www.gosafesnap.wales.

Gyrrwr o Gasnewydd yn ennill Loteri Pass Plus Cymru



Mollie Scourfield yw enillydd diweddaraf loteri chwarterol Pass Plus Cymru a chafodd ei gwobr o £200 gan Faer Casnewydd a'r Aelod Cabinet dros y Strydlun.

Dywedodd Mollie ei bod yn teimlo bod y profiad ychwanegol sy'n dod drwy gynllun Pass Plus Cymru yn eithriadol o ddefnyddiol, a bod yr elfen ynglŷn â gyrru ar y draffordd yn arbennig o werthfawr. Fel ffordd i wella medrau gyrwyr ifanc fel hithau, mae'n teimlo bod Pass Plus Cymru yn anhygoel a hoffai ei argymhell. Am £20, mae'n werth gwych am arian.

Maer Casnewydd, y Cynghorydd David Fouweather, a roddodd ei gwobr i Mollie a dywedodd "Dwi wrth fy modd yn cael cyflwyno'r

wobr yma i Mollie. Mae Pass Plus Cymru yn gynllun i yrwyr ifanc a gyrwyr newydd sydd wedi llwyddo'n ddiweddar yn eu prawf gyrru, ac mae'n gynllun uchel ei barch sydd ar waith ledled Cymru gan anelu at wella medrau gyrwyr ifanc." Mae enw enillydd gwobr chwarterol Pass Plus Cymru yn cael ei dynnu o blith y gyrwyr hynny a gymerodd yr amser i ddychwelyd holiaduron adborth am eu profiad o Pass Plus Cymru.

Cymwysterau Laser i Weithredwyr Camerau yng Nghymru



Wyth gweithredwr camera diogelwch o Gymru yw'r myfyrwyr diweddaraf i ennill cymhwyster gweithredwyr laser cwmni Road Safety Support (RSS). Llwyddodd staff o Heddlu'r Gogledd, Heddlu'r De a Heddlu Dyfed Powys i gwblhau'r Dyfarniad Lefel 3 IQ mewn Technoleg Gorfodi Diogelwch Ffyrdd i Weithredwyr Laser.

Mae'r cymhwyster i ddefnyddwyr technoleg gorfodi yn rhoi'r medrau a'r wybodaeth y mae arnyn nhw eu hangen i wneud eu gwaith yn effeithiol, ac mae'n cael ei gydnabod a'i werthfawrogi gan y llysoedd.

Cafodd y cwrs ei addysgu gan Steve Langdon, Rheolwr Cymorth Cyfreithiol, a Steve Callaghan, Rheolwr Cymorth Technegol, o'r RSS, dros bum niwrnod. Mae'r cymhwyster yn cynnwys amryw o elfennau, gan gynnwys defnyddio dyfeisiau gorfodi'n effeithlon a chyfreithlon, cyd-destun technegol a chyfreithiol defnyddio'r dechnoleg, proses y Swyddfa Gartref ar gyfer cymeradwyo mathau o dechnoleg a chalibro. Dywedodd Steve Langdon: "Roedd yn bleser dysgu criw mor wych o fyfyrwyr fu'n gweithio'n galed ac yn ymateb drwy gydol y cwrs. Cafodd hynny ei adlewyrchu yn eu marciau yn yr arholiad, oedd ymysg yr uchaf sydd wedi'u hennill yn y cymhwyster yma."

Her Godio'r DVLA

Mae Diogelwch Ffyrdd Cymru wrth ei fodd yn creu partneriaeth â'r DVLA ar gyfer Her Godio Genedlaethol Cymru i blant 7 i 11 oed, mewn cysylltiad â'r Clwb Codio a Hyb Llysgenhaddon STEM Cymru.

Bu'r her yn fodd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn datrys problemau, cyfathrebu a gwaith tîm yn ogystal â gwella'u gwybodaeth o raglennu cyfrifiaduron mewn ffordd hwyliog ac arloesol, gyda chyfle i ennill gwobrau anhygoel ac arian ar gyfer offer TG i'w hysgolion.

Ar sail themâu ymestynnol ynghylch diogelwch ffyrdd, cefnforoedd heb lygredd ac atal bwlïo, gofynnodd her Diogelwch Ffyrdd Cymru i'r disgyblion greu gêm i ddangos sut gall pobl ifanc weld peryglon ac aros yn ddiogel wrth feicio – sef neges eithriadol o bwysig i blant yn y grŵp oedran hwn.

Mewn cystadleuaeth a gynhaliwyd gan Ddiogelwch Ffyrdd Cymru ar y diwrnod, Siobhan Morris o Ysgol Gynradd Treforys, Abertawe, oedd enillydd Iwcus helmed feicio newydd. Llongyfarchiadau mawr i bob ysgol a gymerodd ran ac yn enwedig Ysgol Gatholig Ein Harglwyddes a Sant Mihangel yn y Fenni: eu gêm beicio diogel wych nhw enillodd yr ail wobwr - £2,000 o offer TG.

I weld rhestr lawn o'r enillwyr a manylion cystadleuaeth y flwyddyn nesaf, ewch i wefan [Her Godio'r DVLA](#).



Dysgu ar sail Model Sweden



Mae dirprwyaeth o bartneriaid aml-asiantaeth ar draws y gwasanaethau brys a Llywodraeth Cymru wedi teithio i Sweden i ystyried sut i leihau nifer y gwrthdrawiadau difrifol ac angheuol.

Yr uchelgais yw sicrhau mai ffyrdd Cymru yw'r rhai mwyaf diogel yn y byd, drwy ddysgu o waith partneriaid ac arloeswyr, ac ymweld â Gweinyddiaeth Trafnidiaeth Sweden. Mae eu hymagwedd genedlaethol nhw, drwy ddylunio, gorfodi, cyfathrebu a deddfu wedi creu diwylliant lle mae gwrthdrawiadau difrifol neu angheuol yn mynd yn brin yn sgil eu "menter Gweledigaeth Sero", sy'n ceisio atal marwolaethau ac anafiadau difrifol ar ffyrdd y wlad. Wrth edrych ar wrthdrawiadau difrifol ac angheuol ar draws Cymru, mae'n bwysig mabwysiadu dull newydd i barhau â'r gwaith sydd eisoes yn cael ei

wneud gan bartneriaid mewn ymgais i weld gwrthdrawiadau difrifol ac angheuol yn diflannu o'r ffyrdd ledled y wlad. Bernir bod ffyrdd Sweden ymysg y rhai mwyaf diogel yn y byd, a dyma gyfle euraid i gyfarfod â'r awdurdodau a chael ein hysbrydoli gan eu gwaith a rhannu'r arferion gorau. Mae llawer o waith yn cael ei wneud yng Nghymru i leihau nifer y gwrthdrawiadau traffig ffyrdd, ond mae hyd yn oed un farwolaeth yn ormod.